

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

OneYou

Dyddiad arolygu: 10 Chwefror
2020

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mai 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	19
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	20
	Atodiad B – Cynllun gwella	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o OneYou, sydd wedi'i leoli yn Doll House Hair Boutique, 451 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd, CF5 1JH ar 10 Chwefror 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod OneYou yn ymrwymedig i ddarparu profiad o ansawdd i gleifion a bod systemau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd gan y gwasanaeth systemau da ar waith i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant cleifion.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn wybodus ac yn brofiadol ynghylch y triniaethau sydd ar gael i gleifion a'r rheoliadau a'r safonau sy'n gymwys i'r gwasanaeth.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparu gwybodaeth dda i gleifion
- Dulliau da ar gyfer cael cydsyniad cleifion
- Defnydd priodol o restrau gwirio dyddiol i sicrhau bod cyfarpar laser yn parhau i fod yn addas
- Ymgysylltu â gweithgareddau gwella ansawdd yn dda
- Dulliau da iawn o gadw cofnodion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae OneYou wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Goleuni Pwls Dwys (IPL)¹ yn Doll House Hair Boutique, 451 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd, CF5 1JH.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 20 Awst 2019.

Roedd y tîm o staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig fel yr unig weithredwr laser.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Gwaredu blew
- Gwaredu briwiau fasgwlaidd
- Gwaredu briwiau pigmentog.

¹ Technoleg ffynhonnell goleuni sbectrwm eang yw IPL a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal triniaethau amrywiol ar y croen at ddibenion aesthetig a therapiwtig.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu profiad o ansawdd i gleifion a bod systemau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd yr amgylchedd i'w weld yn lân, yn fodern ac yn ddeniadol. Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac roedd systemau addas ar waith i gael adborth gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur.

Yn gyffredinol, er na chawsom lawer o adborth gan gleifion, roedd yr adborth i gyd yn gadarnhaol iawn, a nododd y cleifion fod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'n wasanaeth gwych, yn hynod broffesiynol ac rwy'n teimlo'n gyfforddus bob amser."

"[Mae'r rheolwr cofrestredig] yn wybodus iawn ac yn disgrifio'r driniaeth yn drylwyr iawn... roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus iawn cyn, yn ystod ac ar ôl pob gwasanaeth a byddem yn ei hargymell yn fawr."

"Bob amser yn gyfeillgar, yn barod i helpu ac yn siriol."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol gynhwysfawr cyn y driniaeth gychwynnol, ac yn holi a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol. Gwelsom hefyd fod cleifion yn llofnodi cofnodion hanes meddygol yn electronig a bod y gweithredwr a oedd yn darparu'r driniaeth yn eu cydlofnodi. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff y triniaethau priodol eu darparu mewn modd diogel.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth yn nodi eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion, dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth bob amser.

Er mwyn sicrhau urddas cleifion, cyn ac ar ôl triniaeth, dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael tywel gwedduster ac, os oes angen, dillad isaf tafladwy. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr ystafell driniaeth yn cael ei chloi drwy gydol pob cwrs o driniaeth a gwelsom fod arwydd priodol ar y drws er mwyn cyfyngu ar fynediad.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym, er bod croeso i glaf ddod i'w ymgynghoriad gyda hebryngwyr, mai polisi'r gwasanaeth oedd peidio â chaniatáu i hebryngwyr fod yn bresennol yn ystod triniaeth. Gwnaethom gadarnhau gyda'r rheolwr cofrestredig fod hyn yn cael ei egluro i gleifion ar lafar ac yn y canllaw i gleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin â pharch gan y staff.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y gwahanol driniaethau a oedd ar gael, y costau, y risgiau a'r manteision.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth. Darperir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Cyn cael triniaeth, mae pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyflwyniad byr i gleifion ar lechen, sy'n amlinellu gwybodaeth y gwneuthurwyr am y driniaeth, canlyniadau tebygol a chyngor gofal cyn ac ar ôl y driniaeth

- Ar ôl i glaf ddarllen y cyflwyniad, caiff gopi o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben² i'w darllen yn ei amser ei hun, ac anfonir copi ato drwy e-bost hefyd
- Yna, caiff cydsyniad ysgrifenedig cynhwysfawr, yn seiliedig ar wybodaeth y claf, ei gasglu a'i gofnodi'n electronig. Caiff hyn ei lofnodi gan y claf a'i gydlofnodi gan y gweithredwr
- Anfonir cyngor ôl-ofal priodol at gleifion drwy e-bost ar ôl cwblhau pob cwrs o driniaeth.

Gwnaethom nodi bod y wybodaeth a roddir i gleifion a'r dull o gael cydsyniad yn arfer i'w nodi. Roedd yr holl ddeunydd ar gael mewn fformat amgen ar gyfer y rhai nad oedd ganddynt fynediad at e-bost.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu siarad yn eu dewis iaith bob amser.

At hynny, mae gan y gwasanaeth wefan gynhwysfawr sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael ac amrywiaeth o wybodaeth ategol. Mae hyn yn cynnwys y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Cynllunio a darparu gofal

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod hanes meddygol yn cael ei gasglu er mwyn sicrhau addasrwydd y driniaeth.

Gwelsom hefyd fod cofrestr electronig gyfredol o driniaethau cleifion yn cael ei chadw drwy system feddalwedd y gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i fonitro'r triniaethau a roddir ac ymateb i unrhyw ddigwyddiadau a all godi.

² Mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio datganiad o ddiben a ddylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Yn unol â phrotocol a pholisi triniaeth y gwasanaeth, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau ei bod yn ofynnol cynnal prawf clytiau ar bob claf fel rhan o amodau ei driniaeth. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf clytiau cyn y driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r ystafell driniaeth wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ac mae'r safle yn ddigon mawr ar gyfer y rhai ag anghenion hygyrchedd.

Mae toiledau i gleifion ar gael yn yr adeilad. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Felly, cynghorir y gwasanaeth i wneud nodi'n glir yn ei ganllaw i gleifion.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion mewn modd priodol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob claf yn cael arolwg boddhad electronig i'w gwblhau ar ôl cwblhau ei gwrs o driniaeth. Gan mai dim ond nifer bach o gleifion yr oedd y gwasanaeth wedi'u trin ers cofrestru ag AGIC, nid oedd unrhyw ganlyniadau adborth i'w dangos, ond cawsom sicrwydd y byddai adborth yn cael ei ddadansoddi bob chwarter a'i arddangos yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi eu hadborth drwy ddulliau eraill, gan gynnwys ar lafar a thrwy e-bost. Mae cleifion hefyd yn gallu rhoi adborth ac adolygiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu monitro gan y rheolwr cofrestredig.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth systemau da ar waith i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant cleifion.

Roedd y cyfarpar laser wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd gwiriadau cyfarpar dyddiol ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn ddiogel.

Mae'r rheolwr cofrestredig yn cwblhau hyfforddiant gloywi rheolaidd gyda'r gwneuthurwr er mwyn diweddarau ei wybodaeth a'i sgiliau.

Gwelsom dystiolaeth o waith cadw cofnodion da iawn sy'n helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad wedi'i gynnal ar y gwifrau trydanol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

I gefnogi diogelwch tân, gwelsom fod asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r asesiad risg amgylcheddol a oedd ar waith. Roedd diffoddydd tân priodol ar gael i'r gwasanaeth a oedd wedi cael ei brynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod arwyddion clir i'r allanfa dân a bod y gwasanaeth wedi cytuno ar fan ymgynnull gyda'r busnesau eraill yn yr adeilad. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod perchenogion yr adeilad yn cynnal ymarferion tân bob chwe mis.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael a bod ei gynnwys i gyd yn gyfredol. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y camau y byddai'n eu cymryd mewn argyfwng, megis pe bai claf yn llewygu, ac roedd hyn yn unol â'i brotocol triniaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd hyfforddiant cymorth cyntaf wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar. Felly, gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried cwblhau cwrs gloywi cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau addas a gweithdrefnau ategol a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer glanhau cyfarpar ac ardaloedd triniaeth ar ddechrau pob dydd a rhwng cleifion, hylendid dwylo a thrin gwastraff clinigol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod dillad isaf untro tafladwy a thywelion gwedduster ar gael i gleifion eu defnyddio a bod y rhain yn cael eu gwaredu'n briodol ar ôl eu defnyddio.

Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i oedolion dros 18 oed yn unig. Gwelsom dystiolaeth o bolisi sy'n gwahardd rhoi triniaeth neu wasanaethau i unigolion o dan 18 oed yn benodol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi diogelu oedolion ar waith gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn petai unrhyw bryderon am ddiogelu unigolion. Roedd hyn yn cynnwys pwyntiau cyswllt awdurdodau lleol, rolau a chyfrifoldebau'r staff unigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig, fel yr unig weithredwr laser, wedi cwblhau lefel briodol o hyfforddiant ar ddiogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth bod protocolau triniaeth priodol ar waith ar y safle a bod y rhain wedi cael eu harolygu gan ymarferydd meddygol.

Gwelsom hefyd fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a rheolau lleol³ a oedd yn disgrifio sut i weithredu'r peiriannau'n ddiogel. Roedd

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd.

y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd y gweithredwr laser wedi'u llofnodi.

Roedd y rheolau lleol hefyd yn cynnwys asesiad risg o beryglon a oedd wedi'u cwblhau gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Nid oedd unrhyw gamau o ganlyniad i'r asesiad risg wedi cael eu nodi ar gyfer y gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu'n foddhaol ym mis Mehefin 2019.

Pleser oedd gweld bod gan y gwasanaeth restr wirio cyfarpar laser ddyddiol ar waith, fel rhan o'r gwiriadau sicrhau ansawdd rheolaidd a gynhelir gan y gwasanaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y cyfarpar laser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio â'r rheolau lleol.

Roedd clo wedi'i osod ar ddrws yr ystafell driniaeth yn ogystal ag arwyddion 'Dim Mynediad' er mwyn atal mynediad heb awdurdod tra bo'r peiriant yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom gadarnhau gyda'r rheolwr cofrestredig fod yr allwedd i weithredu'r peiriant laser yn cael ei chadw yn ddiogel er mwyn atal defnydd heb awdurdod o'r peiriant ymhellach.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁴ Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ac yn effeithiol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymgymryd â gweithgareddau gwella ansawdd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cofnodion cleientiaid yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob dydd er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir, gan gynnwys y llofnodion angenrheidiol gan y claf a'r gweithredwr laser.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant gloywi rheolaidd gyda gwneuthurwr y peiriant laser. Mae hyn yn helpu i sicrhau gwybodaeth a sgiliau parhaus ynghylch y cyfarpar a diweddariadau cyffredinol yn y sector. Gwnaethom nodi bod y gweithgareddau hyn yn arfer i'w nodi.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom dystiolaeth o arferion cadw cofnodion da iawn. Roedd y cofnodion yn cael eu cwblhau mewn modd digon manwl a chllir, sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol wrth gynllunio a chofnodi triniaeth cleifion.

Roedd y cofnodion yn cael eu storio ar system feddalwedd gwmwl arbenigol, sy'n sicrhau cysondeb a diogelwch data, gyda chopïau wrth gefn o ddata yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod OneYou yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus ac yn brofiadol ynghylch y triniaethau sydd ar gael i gleifion a'r rheoliadau a'r safonau sy'n gymwys i'r gwasanaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff OneYou ei redeg o ddydd i ddydd gan y rheolwr cofrestredig, sef y perchennog a'r unig weithredwr laser awdurdodedig.

Drwy drafodaethau a gynhaliwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, dangosodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad i ddarparu profiad o ansawdd a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn wybodus ac yn brofiadol ynghylch y triniaethau sydd ar gael i gleifion a'r rheoliadau a'r safonau sy'n gymwys i'r gwasanaeth.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Gwnaethom wirio sampl o'r rhain a gwelsom dystiolaeth i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda phroses briodol ar gyfer rheoli fersiynau a dyddiadau adolygu.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn arddangos tystysgrif cofrestru AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith a bod hyn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriant laser, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant laser cofrestredig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gynnal ar gyfer y rheolwr cofrestredig er mwyn helpu i amddiffyn a diogelu'r cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: OneYou

Dyddiad arolygu: 10 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella o dan y themâu uchod.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd: